Cyngor Sir Caerfyrddin

# Iechyd yr Amgylchedd - Gweithdrefn ar gyfer Ymchwilio a Gorfodi o ran Niwsans Statudol

Chwefror 2025

sirgar.llyw.cymru

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## CYNNWYS


| | | |
|---|---|---|
| | Crynodeb Gweithredol | 3 |
| 1. | Beth yw Niwsans Statudol? | 4 |
| 2. | Yr hyn nad yw'n cael ei ystyried yn Niwsans Statudol | 5 |
| 3. | Iechyd yr Amgylchedd - Rheoleiddio | 5 |
| 4. | Cwynion afresymol neu achwynwyr parhaus afresymol | 7 |
| 5. | Beth os ydw i'n anfodlon ar y ffordd y cafodd yr achos ei reoli? | 7 |
| 6. | Cyhoeddusrwydd i'r Cynllun a dogfennau gorfodi Iechyd yr Amgylchedd | 7 |
| 7. | Adolygu a monitro'r cynllun hwn | 7 |
| | | |
| Atodiad 1 | Sut gallwch chi roi gwybod am broblem? | 8 |
| Atodiad 2 | Sut bydd y cyngor yn delio â'ch cwyn? | 8 |

## Crynodeb Gweithredol

Mae rôl adain Iechyd yr Amgylchedd yn cynnwys yr holl ffactorau allanol sy'n effeithio ar iechyd a llesiant pobl. Mae hyn yn amrywio o'r aer rydym yn ei anadlu, y bwyd rydym yn ei fwyta a'r dŵr rydym yn ei yfed, i effaith ehangach peryglon o waith dyn ar y byd o'n cwmpas.

Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i ymchwilio i gwynion sy'n ymwneud â niwsans statudol, ond nid yw bob amser yn bosibl i'r Awdurdod gymryd camau gorfodi neu fodloni disgwyliadau cwsmeriaid. Nod y weithdrefn hon yw sefydlu fframwaith sy'n amlinellu'r hyn y gall y cyhoedd ei ddisgwyl o ran darpariaeth adain Iechyd yr Amgylchedd mewn perthynas ag ymchwiliadau niwsans statudol, fel yr amlinellir isod:

• Rhoi trosolwg o'r ymchwiliad niwsans, gan gynnwys crynodeb o'r hyn a allai fod yn gyfystyr â niwsans statudol

• Manylu ar y prosesau gorfodi a'r pwerau sydd ar gael i'r Cyngor

• Nodi polisïau a gweithdrefnau sy'n pennu sut y bydd adain Iechyd yr Amgylchedd Sir Gaerfyrddin yn ymchwilio ac yn ymdrin â chwynion niwsans mewn modd teg, rhesymol a chyson

• Manylu ar y safonau gwasanaeth yr ydym yn ymdrechu i'w cyflawni er mwyn sicrhau bod cwynion yn cael eu hateb mewn modd amserol, a bod achwynwyr yn cael gwybod am ganlyniad ymchwiliadau o'r fath ar gamau priodol. Ymdrinnir â chwynion yn unol â phroses asesu risg, er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu yn y ffordd fwyaf effeithiol.

## 1. BETH YW NIWSANS STATUDOL?

Er mwyn i weithgaredd gael ei ddiffinio'n niwsans statudol, rhaid iddo:

- Amharu'n sylweddol ac yn afresymol ar y ffordd y mae cartref neu safle arall yn cael ei ddefnyddio neu ei fwynhau. Mae'n fwy nag aflonyddwch neu'n rhywbeth y mae rhywun yn ymwybodol ohono.
- Anafu iechyd neu fod yn debygol o anafu iechyd.

### Fframwaith a Chanllawiau

Mae Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn gosod dyletswydd statudol ar y Cyngor i ymchwilio i gwynion am niwsans statudol ac, lle bo hynny'n briodol, cymryd camau gorfodi perthnasol.

#### Mathau o niwsans statudol, fel y nodir yn adran 79 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

- unrhyw safle sydd yn y fath gyflwr ei fod yn niweidiol i iechyd neu'n achosi niwsans;
- mwg sy'n dod o safle fel ei fod yn niweidiol i iechyd neu'n achosi niwsans; e.e. coelcerthi
- mygdarthau neu nwyon o safle sy'n niweidiol i iechyd neu sy'n achosi niwsans;
- unrhyw lwch, stem, arogl neu ddrewdod arall sy'n dod o safle diwydiannol, masnach neu fusnes ac sy'n niweidiol i iechyd neu'n achosi niwsans
- unrhyw beth sydd wedi casglu neu sydd wedi ei adael sy'n niweidiol i iechyd neu'n achosi niwsans e.e. gwastraff anifeiliaid, cronni gwastraff, fermin
- unrhyw anifail a gedwir yn y fath le neu fodd sy'n niweidiol i iechyd neu'n achosi niwsans
- unrhyw bryfed sy'n deillio o safle diwydiannol, masnach neu fusnes perthnasol ac sy'n niweidiol i iechyd neu'n achosi niwsans;
- golau artiffisial sy'n deillio o safle sy'n niweidiol i iechyd neu'n achosi niwsans;
- sŵn sy'n deillio o safle sy'n niweidiol i iechyd neu'n achosi niwsans;
- sŵn sy'n niweidiol i iechyd neu'n achosi niwsans ac sy'n gollwng o gerbyd, peiriant neu offer mewn stryd neu sy'n cael ei achosi gan un o'r rhain
- unrhyw fater arall a ddatganir gan unrhyw ddeddfiad i fod yn niwsans statudol;

### Amcanion

Mae gan adain Iechyd yr Amgylchedd gyfrifoldeb i ddiogelu iechyd y cyhoedd. Er mwyn cyflawni'r rôl hon, rhaid i swyddogion gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol. Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd yw'r arbenigwyr cydnabyddedig wrth ymdrin â chwynion niwsans statudol, ac mae eu barn broffesiynol yn bwysig iawn wrth benderfynu ar unrhyw gamau angenrheidiol ar bob cam o'r ymchwiliad. Mae pob swyddog yn yr adain naill ai'n cael eu goruchwylio a/neu wedi'u hyfforddi i lefel sy'n briodol i'w rôl a'u cyfrifoldebau.

Yn y cyd-destun hwn, prif amcanion ein tîm yw:

- Ymchwilio i gwynion dilys am niwsans statudol, gan weithredu'n gymesur ac yn rhesymol
- Datrys niwsans drwy weithredu anffurfiol/cyfryngu ac ati pan fo'n briodol
- Cymryd camau ffurfiol lle bo'n berthnasol.

## 2. YR HYN NAD YW'N CAEL EI YSTYRIED YN NIWSANS STATUDOL

Mae rhai amgylchiadau nad ydynt yn perthyn i'r categorïau uchod, rhestrir enghreifftiau isod:

- Person sy'n gwneud gwaith DIY yn ystod y dydd ac ar benwythnosau dros ychydig wythnosau.
- Sŵn plant yn chwarae yn eu gardd.
- Arogl sy'n dod o goginio mewn eiddo domestig.
- Mwg/arogl sigaréts
- Mwg/arogl o farbeciw mewn eiddo domestig
- Golau naturiol wedi'i adlewyrchu.
- Sŵn arferol o awyrennau, ffyrdd neu reilffyrdd.
- Parti sy'n digwydd ychydig o weithiau'r flwyddyn yn unig ac sy'n gorffen ar amser rhesymol gyda'r nos.
- Mwg a sŵn o goelcerth neu dân gwyllt ar noson tân gwyllt.
- Coelcerth gan gymydog o bryd i'w gilydd ac nad yw'n cynhyrchu mwg tywyll.
- Sŵn traed, siarad neu deledu (nad yw’n ormodol) o eiddo cyfagos, y gellir ei glywed oherwydd diffyg inswleiddio sŵn neu inswleiddio sŵn gwael rhwng yr eiddo.

Mewn achosion o'r fath, gan na allwn weithredu, efallai y byddwn yn gallu rhoi cyngor i chi neu awgrymu'r camau gorau i'w cymryd. Mae'n bosibl i unigolyn preifat gymryd camau sifil am iawndal os effeithir yn wael ar ansawdd ei fywyd.

## 3. IECHYD YR AMGYLCHEDD - RHEOLEIDDIO

Mae gan y Cyngor rôl i ymchwilio i gwynion am niwsans fel y nodwyd uchod.

Oherwydd y nifer fawr o gwynion a dderbynnir gan y tîm, datblygwyd gweithdrefn er mwyn sicrhau bod pob cwyn yn cael ei thrin mewn modd teg, rhesymol a chyson. Bydd swyddogion yn dilyn proses asesu risg, fel yr amlinellir yn Atodiad 2.

Cwynion dienw

Ni chaiff cwynion a wneir yn ddienw eu dilyn oherwydd:

- mae angen asesu sut mae'r digwyddiad sy'n destun y gŵyn yn effeithio ar y person sy'n gwneud cwyn.
- pe bai angen cymryd camau cyfreithiol mewn perthynas â chwyn, y gall y Cyngor ddatgan yn y llys bod y mater wedi'i adrodd gan breswylydd lleol.
- Efallai y bydd angen i ni hefyd gysylltu â chi cyn cynnal unrhyw archwiliad safle i ofyn am ragor o wybodaeth neu eglurhad gennych ynghylch manylion y niwsans honedig.

Bydd yr holl fanylion a ddarperir gan achwynydd yn parhau'n gyfrinachol, oni bai bod angen y wybodaeth i'w defnyddio fel tystiolaeth yn y llys. Os bydd hyn yn digwydd, bydd y Cyngor yn gwneud pob ymdrech resymol i'ch hysbysu cyn datgelu unrhyw wybodaeth.

Datrys yn anffurfiol lle bo'n bosibl

Nid yw llawer o bobl yn sylweddoli y gallent fod yn achosi niwsans. Cyn i chi wneud cwyn, rydym yn argymell eich bod yn ceisio siarad â'r person a dweud wrthynt yn gwrtais am y broblem. Dim ond os ydych yn teimlo ei bod yn ddiogel ac yn briodol y dylech wneud hyn.

Proses ymchwilio

Os ydych chi'n gwneud cwyn, ni fydd eich manylion yn cael eu datgelu i'r 'cyflawnwr'. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi efallai y bydd angen darparu eich manylion rhag ofn y bydd achos yn mynd ymlaen i'r llys.

Byddwn yn gwneud asesiad o'r ffeithiau sy'n hysbys am yr achos, gan gynnwys unrhyw dystiolaeth a ddarperir gan yr achwynydd ac a gafwyd trwy fonitro. Bydd swyddogion yn gwneud dyfarniad rhesymol ynghylch a yw'r mater sy'n destun y gŵyn yn gyfystyr â niwsans statudol, ac yn rhoi sylw i Bolisi Gorfodi'r Cyngor yn ystod yr achos.

Fel rhan o'r broses hon, bydd swyddogion yn brysbennu cwynion i sicrhau bod yr achosion risg uwch yn cael eu blaenoriaethu. Mae'r weithdrefn hon yn amlinellu'r camau ymchwilio y bydd y tîm yn eu dilyn er cysondeb. Bydd yr Awdurdod bob amser yn ceisio sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn modd effeithiol ac amserol.

Yn y rhan fwyaf o achosion, hyd yn oed pan nodir achosion o dorri amodau, byddwn yn ceisio datrys y rhain yn anffurfiol, a all gynnwys: -

- Trafodaethau anffurfiol gyda pherchennog/datblygwr i ddatrys mater,
- Llythyrau rhybuddio i sicrhau newid,

- Hysbysiadau Gorfodi os nad yw gweithredu anffurfiol yn llwyddiannus i ddatrys problem ac ystyrir ei fod yn angenrheidiol.

## 4. CWYNION AFRESYMOL NEU ACHWYNWYR PARHAUS AFRESYMOL

Mewn lleiafrif o achosion, mae pobl yn mynd ar ôl cwynion mewn modd afresymol. Efallai y byddant yn ymddwyn yn annerbyniol, neu'n bod yn afresymol o ran cysylltu a chyflwyno sylwadau dro ar ôl tro. Gall hyn amharu ar yr ymchwiliad i'w cwyn (neu i gwynion gan eraill) a gall fod iddo oblygiadau sylweddol i'r adrannau o ran eu hadnoddau. Nodwyd y gallai'r gweithredu hwn ddigwydd tra oedd cwyn yn destun ymchwiliad neu unwaith yr oedd ymchwiliad wedi dod i ben. Dan y cyfryw amgylchiadau, rhaid i Gyngor Sir Caerfyrddin (y Cyngor) gadw'r hawl i ddod â'r gŵyn i ben ar ôl bod drwy'r weithdrefn gyfan. Yn yr un modd, rydym yn cadw'r hawl i beidio â delio â chwynion ailadroddus gan unigolyn ar yr un mater.

Gellir rheoli unrhyw faterion o'r fath drwy'r Polisi Gweithredoedd Annerbyniol gan Achwynwyr, a gellir gofyn am gyngor ynghylch y mater hwn gan y Tîm Cwynion.

## 5. BETH OS YDW I'N ANFODLON AR Y FFORDD Y CAFODD YR ACHOS EI REOLI?

Os ydych chi'n anfodlon â'r ffordd y mae'r ymchwiliad yn cael ei reoli neu wedi'i reoli (yn hytrach na bod yn anhapus â'r canlyniad os penderfynwyd na ellir cymryd unrhyw gamau), dylech, yn y lle cyntaf, godi'r pryderon hyn gyda'r rheolwr perthnasol o fewn tîm Iechyd yr Amgylchedd. Os ydych yn dal yn anfodlon â'r ffordd y mae'r tîm wedi ymdrin â'ch ymholiad ar ôl gwneud hynny, gallwch gyflwyno cwyn gan ddefnyddio gweithdrefn gorfforaethol y Cyngor a nodir mewn dau gam.

Y Tîm Cwynion a Chanmoliaeth
Neuadd y Sir
Caerfyrddin
SA31 1JP
Cliciwch i gopïo cyfeiriad e-bost: cwynion@sirgar.gov.uk
01267 224488

Os ydych yn dal yn anfodlon ar y canlyniad ar ôl derbyn ymateb terfynol y Cyngor i'ch cwyn, gallwch gyfeirio'r mater at Ombwdsmon Cymru drwy Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Sylwer: Ni fydd yr Ombwdsmon yn ymchwilio i unrhyw gŵyn nes bod yr achwynydd wedi dilyn gweithdrefn gwynion gorfforaethol y Cyngor ei hun yn gyntaf ac wedi ceisio datrysiad yn uniongyrchol gyda'r cyngor yn y lle cyntaf.

## 6. CYHOEDDUSRWYDD I'R WEITHDREFN HON

Bydd y weithdrefn hon ar gael ar wefan y Cyngor. Gellir gofyn am gopïau caled a fformatau ac ieithoedd eraill yn ysgrifenedig.

## 7. ADOLYGU A MONITRO'R WEITHDREFN HON

Wrth lunio'r weithdrefn hon, mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i sicrhau ei bod yn cael ei hadolygu o bryd i'w gilydd a'i diweddaru yn ôl yr angen i sicrhau ei bod yn parhau'n addas i'r diben yn y dyfodol. Felly, bydd adain Iechyd yr Amgylchedd yn cynnal adolygiad o'r weithdrefn bob tro y bydd newid sylweddol yn y ddeddfwriaeth (gan gynnwys cyfraith achosion).

## ATODIAD 1

## SUT Y GALLWCH CHI ROI GWYBOD AM BROBLEM

Gallwch wneud cais am wasanaeth:

- Ar lafar drwy ffonio Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid y Cyngor: 01267 234567
- Drwy ymweld â hwb gwasanaethau cwsmeriaid y Cyngor
- Drwy anfon e-bost: diogelurcyhoedd@sirgar.gov.uk

Rhaid i bob cais am wasanaeth gynnwys:

- enw llawn,
- rhif ffôn,
- cyfeiriad post a/neu
- cyfeiriad e-bost.

Er mwyn ein helpu i ddelio â'ch achos cyn gynted â phosibl, mae'n bwysig darparu cymaint o wybodaeth ag y gallwch. Isod ceir rhestr o'r math o wybodaeth a fyddai'n ein cynorthwyo i ddelio â'ch cwyn:

- Disgrifiad cywir o leoliad neu gyfeiriad y safle penodol;
- Disgrifiad manwl o'r gweithgareddau sy'n digwydd a pham y maent yn peri pryder;
- Enwau, cyfeiriadau, rhifau ffôn a chyfeiriadau e-bost y personau hynny sy'n gyfrifol am y toriad honedig neu'r perchnogion tir;
- Y dyddiad a'r amseroedd pan ddigwyddodd y toriad neu'r digwyddiad honedig;
- Unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth arall (gan gynnwys lluniau) a allai gynorthwyo;
- Eich enw a'ch manylion cyswllt fel y nodir uchod.

## ATODIAD 2

## SUT BYDD Y CYNGOR YN DELIO Â'CH CAIS AM WASANAETH?

### Cam 1: Cofrestru a chasglu gwybodaeth.

Ar ôl derbyn cais am wasanaeth gyda thystiolaeth ategol, bydd yr Awdurdod yn:

- Cofrestru'r gŵyn yng nghronfa ddata'r Cyngor
- Gwiriwch fod gennym yr holl wybodaeth angenrheidiol i ymchwilio i'r cais am wasanaeth ac, os nad oes, cysylltwch â'r achwynydd os yw'n bosibl

Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, byddwn yn gofyn i chi gadw log niwsans am gyfnod o amser, a bydd angen iddo gynnwys manylion y mater sy'n effeithio arnoch chi, megis y dyddiad, amser, hyd a lleoliad. Efallai y gofynnir i chi hefyd ddarparu ffotograffau/fideos os yw'n bosibl ac yn ddiogel gwneud hynny, gan fod hyn yn aml yn helpu i ddangos sut mae'r mater yn effeithio arnoch chi.

Mae'r logiau niwsans yn hanfodol gan y bydd y wybodaeth yn helpu swyddogion i fonitro'n fwy penodol, fel bod ganddynt y cyfle gorau i weld tystiolaeth o'r mater sy'n effeithio arnoch chi. Gallwn hefyd ddefnyddio'r wybodaeth fel tystiolaeth yn y llys.

Os nad yw'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu yn dangos mater y gall swyddogion eich helpu ag ef, cewch wybod a bydd yr achos yn cael ei gau.

Byddwch yn onest ac yn gywir gan nad yw ynadon yn edrych yn ffafriol ar dystiolaeth wedi'i gorliwio neu anghywir, a gallant daflu'r achos allan o'r llys.

Fel rhan o'n gweithdrefnau ymchwilio, bydd swyddogion yn cynnal asesiad risg ar bob cwyn a dderbynnir, a rhoddir blaenoriaeth i'r achosion risg uwch i sicrhau bod eu hamser yn cael ei ddefnyddio lle gall gael yr effaith fwyaf. Bydd achosion blaenoriaeth is, sydd o arwyddocâd cyfyngedig i iechyd y cyhoedd, yn cael eu cofnodi ar ein systemau ac yn cael sylw gan swyddogion pan fydd amser yn caniatáu. Bydd cwynion yn cael eu cofnodi, a bydd swyddog yn cysylltu â'r cleient i drafod cyn gynted â phosibl.

I hwyluso'r broses hon, bydd swyddogion yn dilyn templed asesiad risg ar gyfer y math penodol o gŵyn a dderbynnir.

Ni all adran iechyd yr amgylchedd ymdrin â'r cwynion canlynol ac ni fydd camau pellach yn cael eu cymryd:

• cwynion dienw;
• cwynion lle mae mynediad i safle'r achwynydd i asesu niwsans yn angenrheidiol ac nad yw'n cael ei ganiatáu gan yr achwynydd;
• cwynion o natur fyrdymor, afreolaidd neu anrhagweladwy

## Cam 2: Cam Ymchwilio

Os byddwn yn ymchwilio i'ch cwyn, byddwn yn cysylltu â'r person rydych chi wedi cwyno amdano. Bydd hyn yn rhoi gwybod iddynt fod cwyn wedi'i gwneud ac yn gofyn iddynt ystyried ffyrdd o atal eu gweithredoedd rhag achosi niwsans. Nid yw manylion ynghylch pwy sydd wedi gwneud y gŵyn yn cael datgelu ar hyn o bryd.

Lle bo angen, bydd swyddog yn gwneud nifer o ymweliadau safle/asesiadau ar y safle i benderfynu a yw'r mater yn gyfystyr â niwsans statudol ai peidio. Gellir cynnal ymweliadau ar adegau pan fo'r niwsans yn debygol o ddigwydd, gan gynnwys y tu allan i oriau swyddfa.
Ar gyfer cwynion ynghylch sŵn, gellir gosod offer recordio sŵn yn eich tŷ. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd angen i swyddog weld y niwsans cyn y gellir cymryd camau ffurfiol.

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd swyddogion yn cynnal cyfanswm o 3 ymweliad yn unol â'r wybodaeth a ddarperir fel rhan o'r broses casglu tystiolaeth, felly mae'n bwysig bod gwybodaeth gywir yn cael ei chynnwys yn y log niwsans y gofynnwyd i chi ei lenwi.

Fel rhan o'r ymchwiliad hwn, bydd swyddogion yn ystyried y canlynol:

- Hyd y niwsans
- Dwyster y niwsans
- Natur yr ardal: mae hyn yn elfen bwysig wrth asesu niwsans, e.e. os ydych chi'n byw ger fferm weithiol, byddai'n rhesymol disgwyl arogleuon/synau amaethyddol, ac felly ni fyddai'n cael ei ystyried yn niwsans
- Amlder y niwsans
- Y dulliau ymarferol gorau: os yw ffynhonnell y gŵyn yn defnyddio pob dull rhesymol i reoli neu leihau'r broblem, efallai na fydd camau gorfodi pellach yn bosibl

Os oes diffyg tystiolaeth o'r ymweliadau, bydd yr achos yn cael ei gau. Gall swyddogion benderfynu cynnal ymweliadau pellach yn ôl eu disgresiwn os ystyrir bod hynny'n angenrheidiol.

Bydd swyddogion yn defnyddio gwahanol ddulliau monitro (goddrychol a/neu ddefnyddio offer monitro). Efallai y bydd angen cynnal ymweliadau monitro ychwanegol, ond bydd hyn yn dibynnu ar ddisgresiwn y swyddog ymchwilio ac amgylchiadau'r achos.

### Cam 3: Cam Gorfodi

Os byddwn yn fodlon bod niwsans statudol yn digwydd, bydd Hysbysiad Atal yn cael ei gyflwyno. Fodd bynnag, efallai y byddwn yn cymryd camau anffurfiol i geisio datrys y broblem yn gyntaf. Os na chydymffurfir â'r hysbysiad, gall erlyniad ddilyn os ystyrir ei fod yn briodol.

Gall fod yn anodd datrys y broblem mewn modd sy'n bodloni pawb. Fodd bynnag, byddwn yn rhoi gwybod i chi am ein cynnydd.

### Cam 4: Cau Achos

Os nad yw swyddogion yn gallu casglu tystiolaeth i gefnogi camau ffurfiol, neu os nad ydych chi eisiau ein cynnwys ni, gallwch gwyno'n uniongyrchol i'r llys ynadon o dan adran 82 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Bydd eich logiau/dyddiaduron niwsans yn ffynhonnell dystiolaeth werthfawr wrth gymryd y camau hyn. I gael rhagor o wybodaeth, gweler y dudalen niwsans statudol - cymryd camau drosoch eich hun, drwy ddilyn y ddolen isod.

https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/iechyd-yr-amgylchedd/cwynion-swn/

Efallai y byddwn hefyd yn gallu eich rhoi mewn cysylltiad â gwasanaeth cyfryngu a all helpu i ddatrys problemau rhwng cymdogion.

Sylwer, os yw'r achos wedi bod yn destun ymchwiliad ac wedi'i gwblhau yn ystod y 6 mis diwethaf ac nad oes unrhyw newidiadau mawr mewn amgylchiadau, ni fydd yr achos yn cael ei ailagor.

Dyddiad : 19 Chwefror 2025